

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu held at on Dydd Iau, 24ain Medi, 2020 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor P.Pavia (Chairman)
County Councillor (Vice Chairman)

County Councillors: J.Becker, A.Davies,
D. Dovey, D. Evans, R.Roden, B. Strong and
J.Pratt

Officers in Attendance

Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Craig O'Connor, Head of Planning
Ross Price, Engineer
Jill Edge, Senior Planning Policy Officer
Ruth Donovan, Assistant Head of Finance

APOLOGIES: County Councillors D. Blakebrough and M.Feakins

1. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

2. Adroddiad Aneddiadau Cynaliadwy y Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Craffu ar adroddiad polisi cefndirol

Cyflwynodd y Swyddogion Craig O'Connor a Jill Edge yr adroddiad, rhoddasant wybod i'r pwyllgor am yr Arfarniad Anheddau Cynaliadwy, sydd wedi cael ei baratoi er mwyn bod yn sail i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Her:

A ddylai'r system sgorio a ddefnyddir ar gyfer y diagram ar dudalen 2 gynnwys pwyntiau negyddol er mwyn lleihau sgoriau os oes problemau negyddol yn bodoli? Ee yn Nhrefnynwy mae gennym diffyg o ran capasiti carthion, a llai o fannau parcio ceir na'r rhan fwyaf o drefi mawr eraill.

Daeth yr eitemau yn y diagram gan Lywodraeth Cymru fel llawlyfr ar gyfer yr hyn y dylid ei ystyried. Mae'r ymarfer hwn yn edrych ar y mesurau meintiol ee y cyfleusterau sydd yn bodoli. Wrth symud ymlaen, bydd yr elfennau eraill ar y diagram yn cael eu hystyried, ond nid yw'r rhain yn ffurfio rhan o'r arfarniad yma. Bydd yr asesiad meintiol yma'n cael ei gynnal, a bydd trafodaethau'n digwydd gyda'r Bwrdd Iechyd, Awdurdod Addysg, Dŵr Cymru, ac ati. Mae gennym gyfarfod mewn ychydig wythnosau i drafod capasiti Trefynwy o ran carthion. Byddwn, felly, yn edrych ar y pethau yma, a byddwn yn ceisio

cael mwy o arian gan ddatblygwyr, pe byddai safleoedd yn dod yn eu blaen, ar gyfer gwella ein seilwaith. Dim ond ar yr anheddau rheiny yn Sir Fynwy y teimlir sy'n gynaliadwy y mae'r ymarfer hwn yn edrych, a hynny'n seiliedig ar y wybodaeth feintiol sydd gennym ar hyn o bryd.

Gall treiddiad band Llydan amrywio ar draws ardaloedd bach iawn. Oherwydd natur fryniog y sir. A yw hyn yn cael ei ystyried?

Ni edrychom ar dreiddiad band llydan. Rhoddwyd ystyriaeth i gyflymder, yn seiliedig ar y wybodaeth yr oedd modd i ni gael gafael ynddi wrth gynnal yr arolwg. Bydd hyn yn cael ei ddiweddarau. Nid yw'n amlwg sut y mae modd asesu treiddiad, sut y mae modd ei fesur. Os oes gan yr aelodau syniadau ynglŷn â hyn yna gallwn eu hystyried wrth wneud y gwaith yma eto yn y dyfodol.

Beth mae'r dadansoddiadau yma'n ein galluogi i wneud? Beth y mae modd i ni fynnu bod datblygwyr yn ei wneud i ni, o ganlyniad?

Mae'r arfarniad yn sail i'n Cynllun Datblygu Lleol newydd o ran ble y dylem edrych ar dwf posib, a chyfleoedd o ran tai a chyflogaeth. Ein cyfrifoldeb ni fel cyngor yw ystyried pa leoliadau yw'r rhai mwyaf cynaliadwy o ran datblygu twf. Gall y datblygiadau yma o ran twf wella ardaloedd, gan wella, o bosib, y pwyntiau negyddol yr ydym wedi eu trafod. Yn y Cynllun Datblygu Lleol diwethaf, roedd meddygfa ar fin cau, ond diolch i'r twf o ran tai yn yr ardal, fe'i cadwyd ar agor ar gyfer y gymuned. Mae datblygiadau tai newydd, felly'n sicrhau bod rhai gwasanaethau'n cael eu cadw; rydym eisiau cadw busnesau lleol ar agor a sicrhau bod ein hardaloedd lleol yn ffynnu.

Da yw gwybod pa gymunedau sy'n gynaliadwy, a gwybod am yr hyn yr hoffem ei adeiladu, ond os nad oes gennym yr ewyllys gwleidyddol er mwyn mynnu bod yr hyn yr hoffem yn cael ei adeiladu, onid yw'r ymarfer hwn yn ymwneud â'r hyn y gallwn fynnu bod datblygwyr yn ei wneud?

Ie, bydd yr hyn yr ydym ei eisiau gan ddatblygwyr – pa fath o ddatblygiadau, a lefel y twf yr ydym eisiau ei weld ar gyfer Sir Fynwy – yn dod i'r amlwg drwy'r broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol yma. Dyma un cam mewn proses hir sydd wedi digwydd dros gyfnod o flynyddoedd o ran datblygu'r cynllun yma. Rydym wedi cael nifer o drafodaethau ynglŷn â'r gymysgedd o dai, a'r mathau cynaliadwy o ddatblygiadau a chynlluniau yr ydym eisiau eu gweld. Ond bydd y polisiau manwl rheiny a'r hyn y byddwn yn ei fynnu gan ddatblygwyr yn dod yn nes ymlaen yn y broses. Y cam cyntaf yn unig yw hyn, adnabod pa ardaloedd yw'r rhai mwyaf cynaliadwy, a ble gallai'r twf ychwanegol fod?

Wrth lunio'r strategaeth, oni ddylem, hefyd, ystyried pwysigrwydd denu'r math iawn o gyflogwyr, a rhoi'r seilwaith sydd ei angen yn ei le?

Dylem, mae angen dull holistaidd. Mae'r cynllun yn ymwneud â thwf, tai a chyflogaeth, a sicrhau ein bod yn adeiladu yn y lle iawn. Mae angen i ni sicrhau bod yr holl wasanaethau o fewn cyrraedd rhwydd i bobl. Mae Covid wedi tanlinellu pwysigrwydd "lleol" – mynd i'r gwaith mewn hybiau lleol, ac ati. Mae nifer o drafodaethau'n digwydd ynglŷn â chanolbwyntio mwy ar bethau lleol, a chydbwysedd o ran gwaith/bywyd. Rydym eisiau gwella ein anheddau presennol er mwyn sicrhau y gallwn wella yn hyn o beth. Yn bendant, mae'n bwysig iawn ystyried y darlun cyflawn, a dyma pam ein bod angen selio ein penderfyniad ar dystiolaeth gadarn.

A oes gennym syniad beth mae'r data newydd gan Lywodraeth Cymru'n ei awgrymu? A yw'r data'n debygol o newid unrhyw beth yn sylweddol?

Rydym yn dal i weithio ein ffordd drwy'r manylion ar hyn o bryd. Rydym yn siarad gydag ymgynghorwyr ynglŷn â sut y mae'r amcanestyniadau poblogaeth yn effeithio ar Sir Fynwy, felly mae'n debyg ei bod yn rhu gynnar i ddweud sut y bydd hyn yn datblygu o ran lefelau twf. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn edrych eto ar yr opsiynau o ran twf, yn seiliedig ar y ffigurau yma, a byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Gallwn ymgysylltu gyda'n cymunedau er mwyn gweld ble y maent yn teimlo y dylem fynd. Mae problemau allweddol yn Sir Fynwy sydd angen eu datrys o hyd; tai fforddiadwy, poblogaeth sy'n heneiddio, dibyniaeth ar geir, ac ati. Mae angen i ni adolygu'r ffigurau a'r dystiolaeth newydd, ac yna rhoi sylw i broblemau, gan sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau sydd er budd ein cymunedau. Pan fyddwn yn ail asesu'r arfarniad anheddau, gan ddefnyddio'r un fethodoleg, bydd yn cael ei anfon allan i bob cyngor cymuned.

Crynodeb y Cadeirydd:

Rydym wedi rhoi sylwadau ar rai o'r agweddau o fewn yr adroddiad, gan awgrymu edrych eto ar y capasiti o ran sgorio- mae'r swyddogion wedi pwysleisio'r data ansoddol a meintiol, ond mae angen i ni gydbwysu'r cyfyngiadau a allai wneud datblygu pellach yn yr ardaloedd rheiny'n fwy problemus. Ac yn yr un modd, rydym wedi clywed sut y gall datblygiad ddod â chyfleoedd o ran twf busnes; weithiau mae cymunedau'n wynebu anawsterau cyn i'r broses gael ei hail-asesu, a chaiff seilwaith newydd ei roi yn ei le. Nododd y swyddogion mai'r nod yw gwella cymunedau, a'u gwneud yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir. Mae disgwyl i'r gweithdai ar y CDLI ail-gychwyn, a bydd hyn yn bwysig o ran bwydo i mewn i'r broses. Clywsom bryderon ynglŷn a threiddiad band llydan a chyflymder, awgrymodd y Cynghorydd Becker ein bod yn edrych ar faint o bobl y mae Open Reach yn ddweud y maent wedi eu goleuo mewn ardal ar gyfer ffibr, yn benodol ffibr i gabinet o'u cymharu â faint o dai sy'n cael eu gweinyddu gan y cabinet dan sylw. Cynigiodd y Cynghorydd Roden y dylid cyflwyno pedwerydd egwyddor sgorio ar gyfer ffactorau negyddol.

3. Rheoli Llifogydd – gwersi a ddysgwyd – adborth i'r Pwyllgor Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Cyflwynodd y Swyddog Ross Price a Ruth Donovan adroddiad ar lafar.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ei sesiwn craffu ei hun ar yr 8fed o Hydref gyda'r gweinidog dros yr Amgylchedd er mwyn adolygu eu hymateb i'r llifogydd y llynedd. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n arwain ar lunio ymateb ar y cyd gan yr holl awdurdodau lleol, gyda'u Swyddog Llifogydd eu hunain, Jean-Francois Dulong. Bydd yn casglu'r ymatebion gan bob llywodraeth leol ac yn ei gyflwyno i'r sesiwn craffu ar yr 8fed o Hydref. Derbyniom e-bost gan Lywodraeth Cymru gyda chwestiynau, roedd hyn yn ddefnyddiol o ran rhoi gwybod i ni ar beth y dylai ein hymateb ganolbwyntio; rydym yn llunio'r ymateb dan sylw ar hyn o bryd. Rydym mewn cysylltiad rheolaidd gyda Thîm Llifogydd Llywodraeth Cymru, ac mae gennym berthynas dda.

Y cwestiwn cyntaf gan Lywodraeth Cymru yw a yw'r cyllid a dderbynnir ganddynt ar gyfer llifogydd a rheoli erydiad arfordirol, ac ar gyfer awdurdodau i ddarparu ymateb brys i lifogydd, yn ddigonol. Mae gennym ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i reoli'r perygl o lifogydd, sydd, yn ein hachos ni, yn deillio o gyrsiau dŵr cyffredin a, a llifogydd tir a dŵr wyneb. Yr awdurdod rheoli risg ar gyfer llifogydd sy'n deillio o brif afonydd, sef yr hyn a effeithiodd Sir Fynwy fwyaf y gaeaf diwethaf (o Afon Gwy, Mynwy a Wysg), yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym, felly, wedi ein cyfyngu i raddau o ran yr hyn y gallwn ei wneud, a pha gynlluniau y gallwn eu rhoi ar waith o ran llifogydd sy'n deillio o brif afonydd. Rydym yn cael cyllid refeniw o £105 mil y flwyddyn er mwyn diwallu ein dyletswyddau statudol, ac mae hyn yn cynnwys darparu'r holl weithgareddau sydd wedi eu gosod yn ein cynllun a'n strategaeth Rheoli'r Risg o Lifogydd. Mae gennym hefyd ddyletswyddau statudol o ran cynnal a chadw, archwilio, cofnodi a mapio asedau yn ogystal â chynnal ymchwiliadau, dal i fyny gyda hyfforddiant a meddalwedd. Yn fwyaf nodedig, o fis Ionawr 2019, daethom yn gorff cymeradwyo ar faterion yn ymwneud â dreiniau ar ddatblygiadau tai newydd. Nid ydym wedi derbyn cyllid ychwanegol i dalu am y gwaith ychwanegol yma, er bod y gost wedi bod yn sylweddol. Mae'r ymatebion i'r llifogydd y gaeaf diwethaf wedi arwain at ôl-groniad o ffrydiau gwaith eraill, megis ceisiadau o ran y broses SAB, ond hefyd o ran darparu ein dyletswyddau dydd i ddydd. Byddai cyllid ychwanegol yn ein helpu i ddelio â hyn.

Mae elfen gyfalaf y cyllid ychydig yn well na'r elfen refeniw. Mae'n talu am yr holl gynlluniau llifogydd yr ydym yn eu hyrwyddo. Fel arfer, mae digwyddiad sy'n achosi llifogydd, rydym yn ymchwilio er mwyn canfod y ffynhonnell a'r mecanweithiau, adnabod pwy sy'n cael eu heffeithio, gwneud cais i Lywodraeth Cymru er mwyn rhedeg cynllun llifogydd, megis adeiladu waliau neu fariau sy'n amddiffyn

rhag llifogydd, ac ati. Yn ystod blynyddoedd diweddar, rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran sicrhau'r cyllid yma. Mae'r llifogydd y llynedd wedi cynyddu'r nifer o gynlluniau sydd eu hangen, ac wedi amlygu problemau sydd wedi bodoli ers amser maith. Rydym wrthi'n datblygu blaenraglen pum mlynedd. Yn ystod y dair blynedd ddiwethaf rydym wedi derbyn tua £160 mil o gyllid grant er mwyn cyflawni cynlluniau llifogydd; eleni £130 mil yn unig sydd gennym. Mae cyfanswm y ffigur yn debygol o gynyddu o ganlyniad i lifogydd y llynedd, ond rydym yn cystadlu gydag awdurdodau lleol eraill.

Yn dilyn y llifogydd yn ystod y gaeaf, gwnaeth Llywodraeth Cymru grant ymateb brys i lifogydd ar gael; gwnaethom gais llwyddiannus am ychydig dros £100 mil, ar gyfer delio gyda'r ymateb a oedd ei angen yn syth yn dilyn y digwyddiad; gosod bagiau tywod, gwaith clirio brys ar geuffosau a chyrsgau dŵr. Gwnaed y gwaith pwysig yma i safon ardderchog; ac roedd ennill y costau'n ôl yn fonws mawr.

Yr elfen nesa o ran cyllid yw grant sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru ar gyfer trigolion sydd wedi eu heffeithio gan lifogydd. Roedd y grant wedi ei gyfyngu i £1000 ar gyfer pobl heb yswiriant, a £500 ar gyfer y rheiny oedd â yswiriant. Fel awdurdod lleol, roeddem yn gyfrifol am weinyddu'r grant, ac roedd hyn yn cynnwys archwilio'r eiddo a sefydlu canolfannau cyswllt y gallai'r cyhoedd eu ffonio i wneud cais am y grant. Rhoddodd hyn straen arall ar ein hadnoddau, ac nid ydym wedi gallu hawlio'r costau'n ôl – byddwn yn pwysleisio hyn yn ein hymateb.

Y prif gyllid oedd y Cynllun Cymorth Ariannol Brys, a rannwyd yn ddwy ran; ymateb ac adfer. Dyma'r maes y cafwyd y prif anawsterau ynddo. Nid oes hawl awtomatig i'r cynllun, ond yn hytrach, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith ar gyfer digwyddiad penodol (gwnaethant hyn ar gyfer y llifogydd ym mis Chwefror). Yna mae trothwyon penodol yn cael eu gosod; yn 19/20 ein trothwy oedd £313 mil, sy'n golygu bod angen i ni wario hyd at y swm yma cyn bod yn gymwys am unrhyw gymorth. Yna, byddem yn derbyn 85% o'r arian sy'n cael ei wario dros £313 mil – sy'n golygu bod angen i'r awdurdod ddod o hyd i 15% o'r arian yma. Mae termau ac amodau ynghlwm â'r gronfa yma. I ni, y prif amodau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar y pryd, oedd y byddent yn hyblyg gyda'r cyllid, na fyddent, o bosib, yn gorfodi'r trothwy 85%, a'u bod, yn wir, yn annog awdurdodau lleol i wneud cais, hyd yn oed os mai tebygol fyddai y byddent yn gwario llai na'r trothwy. Rhoddodd hyn yr argraff i ni y byddem yn gymwys. Bu iddynt, hefyd, ychwanegu elfen ynglŷn â rhoi gostyngiadau treth cyngor a chyfraddau busnes i gartrefi a busnesau a effeithiwyd gan y llifogydd. Bu iddynt ein hannog i roi tri mis o ryddhad i'r cartrefi rheiny a hawlio'r arian yn ôl o dan y cynllun.

Roedd casglu cost yr ymateb yn llawer o waith. Gwnaethom hynny, a gwelsom mai dim ond £321 mil yr oeddem wedi ei wario. Golygodd hyn ein bod £8 mil dros y trothwy; ac unwaith y byddai'r 85% wedi ei gyfrif, gallem hawlio £6857. Yn gyffredinol, roedd hyn yn siomedig iawn o herwydd mai'r termau ac amodau safonol a dderbyniwyd gennym am y grant. Ni dderbyniom amryw o'r pethau yr harweiniwyd

ni i gredu y byddem yn eu derbyn. Y teimlad cyffredinol yng Nghymru yw mai ymarfer diwerth oedd hwn, gydag ychydig iawn o gyllid yn deillio ohono.

Rydym hefyd yn bwriadu casglu costau adfer ar gyfer cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Rydym wedi canfod £8.8 miliwn o gostau y bydd Sir Fynwy'n eu hysgwyddo dros dair blynedd. Yn ddiweddar, rydym wedi clywed sôn y byddwn yn derbyn peth o'r cyllid hwnnw; o gwmpas £2.3 miliwn ar gyfer 2021. Cyfnod byr iawn sydd gennym i wario'r arian, ac nid yw'r amser o'r flwyddyn yn ddelfrydol ar gyfer gwneud gwaith megis rhoi wyneb newydd ar ffyrdd. Yn anffodus, ychydig iawn o wybodaeth sydd wedi dod gyda'r arian o ran a oes modd i ni gario peth ohono drosodd i'r flwyddyn ganlynol os nad ydym yn ei wario.

Yr ail gwestiwn yw a fydd angen mwy o gyllid brys y gaeaf hwn er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddelio â llifogydd. Pwysleisiodd y gaeaf diwethaf y ddiffyg adnoddau sydd gennym ar gyfer ymateb i'r digwyddiadau yma tra'n parhau i gynnal dyletswyddau eraill. Mae angen ystyried, hefyd, y gwaith a wnaed gan Priffyrdd a Cynnal a Chadw Tir. Heb os, mae angen cyllid ychwanegol arnom os byddwn yn wynebu digwyddiad arall fel y llynedd. Un problem y llynedd o ran cymorth ariannol brys oedd bod angen ysgwyddo a hawlio'r costau cyn diwedd y flwyddyn ariannol – digwyddodd y llifogydd ganol Chwefror a bu iddynt barhau hyd nes canol Mawrth, felly parhaodd ein gwaith o glirio ceuffosydd a chyrsgiau dŵr, ac ati ymhell y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gan fod y pot hwn o arian wedi diflannu, ceisiom hawlio'r arian yn ôl drwy'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys, fel y crybwyllwyd, nid oeddem yn llwyddiannus o ran adennill rhai o'r costau yma.

Y trydydd cwestiwn yw a oes digon o gefnogaeth yn cael ei roi i awdurdodau lleol i'w galluogi i godi ar eu traed yn dilyn llifogydd mawr; rydym dal yn y cam adferiad yn dilyn llifogydd y gaeaf diwethaf, ac mae'n debygol y byddwn yn parhau yn y cam yma am amser maith. Mae'r cwestiwn yn dibynnu ar faterion ariannon (drwy'r CCAB), fel sydd wedi ei ddisgrifio'n barod. Mae hefyd yn symud ymlaen i grybwyll ymgymryd ag ymchwiliad a gwneud newidiadau er mwyn rheoli'r risg y bydd hyn yn digwydd eto; rydym yn edrych ar nifer o gynlluniau llifogydd ar hyn o bryd, ac rydym yn rhoi pwysau ar CNC yn rheolaidd i symud pethau yn eu blaen o ran llifogydd prif afonydd ar draws y sir. Roedd un o'r prif broblemau a gawsom y gaeaf diwethaf yn ymwneud ag amddiffynfeydd rhag llifogydd preifat a byndiau, fel arfer mewn ardaloedd gwledig; yn arbennig, mae byndiau yn Llanwenarth, Prioress Mill Lane a Llanbadoc. Mae'r rhain yn fwndiau tir mawr nad ydynt yn cael eu rheoli ar hyn o bryd gennym ni na CNC. Nid ydynt, ychwaith, yn ddarostyngedig i ymchwiliadau na gwaith chynnal a chadw. Methodd y bwndiau yma mewn modd difrifol y gaeaf diwethaf. Mae bwnd Llanbadoc bellach wedi cael ei gydnabod fel ased CNC, sydd yn newyddion da iawn. Mae ein Harweinydd, y Cynghorydd Fox, mewn cyswllt rheolaidd gyda CNC ynglŷn â'r mater hwn. Rydym, fel awdurdod, wedi ein cyfyngu o ran yr hyn

y gallwn ei wneud, am eu bod yn asedau sy'n perthyn i brif afonydd. Wrth i'r glaw gychwyn yn barod yr Hydref/Gaeaf hwn, mae trigolion yr ardaloedd yma'n dod yn bryderus iawn. Byddwn yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru a CNC, ac yn enwedig CNC i ryddhau cyllid yn llawer cynt.

Y pedwerydd cwestiwn yw pa mor effeithiol yw'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol o ran darparu swyddogaeth gynghorol a chydlynol i Lywodraeth Cymru. Nid ydym yn chwarae llawer o ran yn y materion yma. Mae'r pwyllgor yn un eithaf newydd. Ni allwn roi ymateb, mewn gwirionedd, oni bai am ddweud nad oes gennym fodd uniongyrchol o drafod gyda'r pwyllgor, efallai y gellir gwella hyn.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet Jane Pratt y sylwadau pellach canlynol:

Mae'r darlun a roddwyd heddiw'n un sy'n achosi pryder mawr. Deliodd ein swyddogion, mewn modd rhagorol, â'r llifogydd. Mynychodd y Swyddog Price a minnau gynhadledd y llynedd, ac ynddi, dywedodd y Swyddfa Dywydd yn gwbwl glir beth sy'n ein wynebu: gallwn fod yn sicr y bydd gaeafau gwlyb a hafau poeth iawn yn parhau. Mae'n sefyllfa anodd iawn am nad oes modd i ni gychwyn ar y gwaith y telir amdano gyda'r arian ychwanegol (y tu hwnt i'r £2.3 miliwn yr ydym wedi ei dderbyn) gan nad oes sicrwydd y gallwn ei adennill gan Lywodraeth Cymru. Nid oes gennym yr un lefel o arian wrth gefn â sir megis RCT, a effeithiwyd gan lifogydd difrifol hefyd. Pryder arall yw CNC: caiff ei ariannu'n wael, mae'n araf yn ymateb, ac nid oes ganddo adnoddau digonol. Mae lefelau glo gyda lifddwr sy'n codi hefyd yn broblem. Rwyf wedi bod yn y swydd hon ers mis Mai y llynedd, ac nid wyf wedi cael gwahoddiad i unrhyw gyfarfod gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol, sy'n gywilyddus. Teimlir yr effeithiau o hyd: er enghraifft, ni wnaethpwyd y gwaith angenrheidiol gan CNC ar ffordd yr A466 (yn dilyn tirlithriad), sy'n golygu y bydd yn rhaid i ni ei chau y flwyddyn nesaf. Mae aneffeithlonrwydd o fewn y sefydliadau yma'n cael effaith pellgyrhaeddol.

Her:

Ym Mrynbuga, dros y blynyddoedd, mae'r afon wedi cronni bob ochor i'r bont. Ai cywir yw nodi mai cyfrifoldeb CNC yw carthu afonydd, ac a fydd arian yn ar gael iddynt yn y dyfodol ar gyfer gwneud hyn gyda'r Wysg?

Ie, CNC sy'n gyfrifol am afonydd. Nid ydynt yn eu carthu'n rheolaidd, fodd bynnag. Oni bai bod afon yn cael ei charthu yr holl ffordd i'w gollyngfa, dim ond creu man isel sy'n llenwi'n ôl i fyny'n naturiol y mae carthu mewn un lleoliad yn ei wneud. Ond, mae CNC yn cael gwared â chroniadau o gerrig mân, felly byddwn yn cysylltu â hwy ynglŷn â'r ynysoedd sydd wedi ffurfio'n raddol ym Mrynbuga, er mwyn gweld a oes modd iddynt wneud archwiliad gyda'r bwriad o gael gwared ohonynt.

Beth yw'r terfyn amser o ran ymateb i CLILC?

Y terfyn amser o ran ymateb i CLILC yw diwedd y dydd yfory.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae'r holl aelodau wedi cydnabod ymateb cadarn MCC i lifogydd y gaeaf diwethaf, a lleswyd eu diolchgarwch am yr ymdrechion a wnaed gan swyddogion yn ystod yr argyfwng, yn ogystal â gan breswylwyr o ran codi arian at y gronfa gymorth. Awgrymodd y Cynghorydd Roden y dylid ail-ystyried rheoliadau 1015 os y byddwn yn wynebu gaeafau gwlyb yn barhaus, ac awgrymodd efallai y bydd amser yn dod pan na ddylid adfer tai sy'n dioddef llifogydd yn rheolaidd, gan ddychwelyd y gorlifdiroedd yn ddolydd.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Pratt bwysigrwydd cyfleoedd ymgysyllty, a sicrhau bod trafodaeth uniongyrchol yn digwydd gyda gweinidogion ac uwch swyddogion. Byddwn yn cyflwyno ymateb cadarn i Lywodraeth Cymru, fel yr eglurwyd gan y swyddogion, ond mae'n bwysig fod pob awdurdod lleol yn cael y cyfle i sgwrsio'n uniongyrchol â gweinidogion, a thynnu sylw at broblemau penodol. Roedd pryderon o'r cychwyn, pan sefydlwyd CNC, yn glŷn â'r ymrwymiad o ran ariannu yn y tymor hir; mae'r wybodaeth sydd wedi ei rhoi i ni heddiw yn fwy o destun pryder byth.

4. Blaen Gynllun Gwaith yr Economi a Datblygu

Roedd Seminar ar gyfer Aelodau ar gynlluniau adfer cyllideb wedi ei chynllunio ar gyfer mis Hydref, ond bydd yn rhaid ei ail threfnu. Tua diwedd mis Hydref, bydd cyfarfod ar y cyd gyda Cymunedau Cadarn er mwyn trafod parcio ceir. Mae Caffael a Bargen Ddinesig Prifddinas Caerdydd yn parhau ar ein agenda – bydd adolygiad porth o'r olaf yn digwydd yn ystod y Gwanwyn nesaf. Mae'r cadeirydd yn croesawu barn aelodau ar p'unai y gallai'r pwyllgor yma gynnal seminar ehangach y cyngor ar y fformiwla ariannu llywodraeth leol.

5. Blaen Gynllun y Cyngor a'r Cabinet

6. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

- 30ain o Ionawr 2020
- 21ain o Orffennaf 2020 (Pwyllgor Dethol ar y cyd)

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'u harwyddwyd fel cofnod cywir, gyda'r newidiadau canlynol ar gyfer y 30ain o loawr; Gofynnodd un aelod yn glŷn ag effaith coronafeirws, pe byddai'r broblem yn gwaethygu, yn enwedig o ran cyflenwadau gan wneuthurwyr Tsieineaidd. Ymatebodd Swyddog gan ddweud pe

byddai'r WHO yn uwchraddio'r broblem, byddai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'n gwneud asesiad, a byddai'r risg yn cael ei hasesu ar lefel awdurdod leol. Ni. Nid oedd goblygiadau uwchraddio'n wybyddus ar y pryd.

7. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf sef y 19eg o Hydref 2020 (Cyfarfod Arbennig)

8. Datganiadau o Fuddiant

Ni waned unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

The meeting ended at **11.35 am**